

planhigion Prydeinig. Hefyd yn ystod y degawd hwn dechreuodd ar ei yrfa fel awdur a chyhoeddwr brwd. Gan ddechrau gyda'r *Flora Londiniensis* yn 1777 (a gyfyngwyd i ddisgrifio planhigion yn tyfu'n wyllt o fewn deng milltir i Lundain) aeth ymlaen i ddechrau'r *Botanical Magazine* yn 1787.

Diddorol iawn, meddech chi. Ond beth sydd a wnelo hyn â Chymru? Dyma'r cysylltiad — William Curtis oedd noddw'r a chyflogwr yr arlunydd hwnnw o Gymro, Sydenham Teast Edwards (1768-1819) o Frynbuga, Gwent.

Petaech yn gofyn i unrhyw un beth yw nodwedd arbennig y *Botanical Magazine* byddent yn siŵr o ddweud mai ansawdd y platiau lliw yw'r prif arbenigrwydd. O'r cychwyn roedd y lluniau i fod yn rhan hanfodol bwysig o'r cylchgrawn ac fe gyflawnodd Sydenham Edwards mewn ffordd odidog yr holl ofynion am blatiau lliwgar, pert a realistig. Wrth iddo weithio i ddarlunio'r cyfnodolyn am dros chwarter canrif, fe osododd y patrwm am luniau pwrpasol, clir a di-lol. I raddau helaeth gellir priodoli llwyddiant y *Botanical Magazine* i ddawn yr artist o Gymro ac roedd llawer gan William Curtis i fod yn ddiolchgar iddo amdano. Curtis ei hun a ddywedodd, '*The Flora Londiniensis brought me praise, but the Botanical Magazine brought me pudding.*'

Da yw deall felly nad perthynas meistr a gwas oedd y berthynas rhwng yr *entrepreneur* a'r arlunydd — roeddent yn fwy fel ffrindiau ac yn aml byddai'r ddau i'w gweld yng nghwmni ei gilydd allan yn y wlad o gwmpas Llundain ac ar deithiau botanegol hwy — un yn llysieu a'r llall yn tynnu lluniau'r sbesimenau a gesglid.

Yn y goleuni hwn, boddhaol rywsut yw sylwi bod Curtis a'i frwdfrydedd am ymchwil botanegol yn ddiamau wedi dysgu llawer i Sydenham Edwards am anatomeg planhigion ac wedi ei ysbrydoli i wneud ei orau glas drosto. Ac ar sail yr holl luniau o waith yr artist a ymddangosodd yn y *Flora Londiniensis* a'r *Botanical Magazine*, mae haneswyr gwyddoniaeth a chelf fel ei gilydd yn gyfwrdd fod Edwards yn un o'r arlunwyr planhigion gorau a fu erioed. Fel y dywed ei gofeb y tu fewn i hen eglwys Chelsea, '*As a faithful delineator of nature, few equalled, none excelled.*'

Efallai mai cefndir ychydig mwy cyffredin na'r teulu meddygon Curtis oedd cefndir teulu Sydenham Edwards — yn anffodus mae llawer o hanes ei febyd wedi mynd ar goll gyda threigl amser. Serch hynny gwyddom mai ym Frynbuga y cafodd ei eni, yn fab i Lloyd Pittel Edwards, a Mary Reece

oedd ei fam. Ewythr iddo oedd y Parchg. William Reece, curad eglwys Llantilio Crossenny ar adeg bedyddio'r baban. Sydenham Edwards yn unig oedd ei enw bedydd a mabwysiadodd yr enw Teast yn ddiweddarach yn ei fywyd. Fel ei dad o'i flaen, mae'n amlwg ei fod yn hoffi enwau canol anghyffredin! Bu'r tad yn gweithio am gyfnod fel ysgolfeistr yn Y Fenni ac mae'n debyg ei fod o bryd i'w gilydd yn organydd mewn eglwys yn y dref honno a hefyd ym Mrynbuga.

Diddorol yw dyfalu sut y dechreuodd Sydenham, y bachgen bach Cymreig, ddringo i le mor amlwg yn ei fyd.

Mae'n amlwg fod tipyn o ddiddordeb gan y bachgen ifanc

mewn tynnu lluniau. Pan nad oedd ond yn ei arddegau, copiodd luniau blodau allan o'r *Flora Londiniensis*. Tua 1788, digwyddodd cyfaill i William Curtis — rhyw Mr Denman — a oedd ar ymweliad â'r Fenni o swydd Hampshire, weld y copiau hyn a'u dwyn i sylw'r botanegydd mawr. Fe wnaeth y lluniau gymaint o argraff ar Curtis fel y trefnodd i Sydenham Edwards ddod i Lundain ar unwaith i'w hyfforddi ac i weithio iddo.

Ar ôl tua dwy flynedd o hyfforddiant dechreuodd lluniau cyntaf Sydenham Edwards ymddangos yn y *Botanical Magazine*. Sylwn ar ei lofnod gyntaf yn Awst 1790 ar lun o fath o Amaryllis ac am y chwarter

canrif nesaf, roedd bron pob llun yn y cylchgrawn hwn yn waith y Cymro o Went. Parhaodd i dynnu lluniau ar gyfer y cylchgrawn ar ôl marwolaeth William Curtis ac anhygoel yw meddwl mai o'r 1721 o blatiau cyntaf, Sydenham Edwards oedd yn gyfrifol am y cyfan ond rhyw gant neu ddau ohonynt.

Hawdd yw edmygu'r lluniau cain a welir yn y *Botanical Magazine* — yn arbennig gan gofio eu bod wedi eu cynhyrchu cyn manteision y byd modern a'i dechnegau newydd o atgynhyrchu lluniau lliw.

Lluniau a liwiwyd â llaw yw'r lluniau a briodolir i Sydenham Edwards ond, wrth gwrs, ni fyddai byth wedi cael digon o

Parhad ar dudalen 24

T H E BOTANICAL MAGAZINE; O R, Flower-Garden Displayed:

I N W H I C H

The most ornamental FOREIGN PLANTS, cultivated in the Open Ground, the Green-House, and the Stove, will be accurately represented in their natural Colours.

T O W H I C H W I L L B E A D D E D,

Their Names, Class, Order, Generic and Specific Characters, according to the celebrated LINNÆUS; their Places of Growth, and Times of Flowering:

T O G E T H E R W I T H

THE MOST APPROVED METHODS OF CULTURE.

A W O R K

Intended for the Use of

Such LADIES, GENTLEMEN, and GARDENERS, as wish to become scientifically acquainted, with the Plants they cultivate.

L O N D O N:

Printed by FRY and COUCHMAN, Upper-Moorfields,
For W. CURTIS, at his BOTANIC GARDEN, Lambeth-Marsh;
And sold by all Bookfellers, Stationers, and News-Carriers,
in Town and Country.

M D C C L X X X V I I .